## CANLLAW I DRAFOD MATH O DESTUN:

# DISGRIFIO

*Trosolwg o nodweddion, iaith a strwythur*

GwE
Tuag at Ragoriaeth

YSGOL BOTWNNOG

YSGOL DYFFRYN OGWEN

Ysgol Tryfan

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# PA FATH O DESTUN YW HWN?

**Testun sy'n cyflwyno gwybodaeth am ddigwyddiad, person, gwrthrych, lle ac ati, heb fynegi barn arno na chynnnig esboniad.**

| STRWYTHUR Y TESTUN | GWYBODAETH AM IAITH | CANLLAWIAU YSGRIFENNU |
|---|---|---|
| Bydd testun o'r math hwn i'w weld yn aml yn y ffurfiau canlynol:<br><br>• Stori fer<br>• Nofel<br>• Disgrifiad o olygfa<br>• Portread o berson<br>• Rhan o ddyddiadur<br>• Ymson<br>• Llythyr | Bydd testun o'r math hwn yn cynnwys:<br><br>• Ysgrifennu creadigol synhwyrus er mwyn dod â chymeriadau a lleoliadau'n fyw i'r darllenydd<br>• Berfau ac ansoddeiriau mentrus a chyffrous<br>• Amrywiol gysyllteiriau – darlunio, achos ac effaith, cymharu, pwysleisio ac amser<br>• Defnydd o nodweddion arddull – ailadrodd, cymariaethau, cyffelybiaethau, trosiadau a phersonoli | Wrth ysgrifennu testun o'r math hwn gellid:<br><br>• Creu naws ac awyrgylch arbennig<br>• Defnyddio'r synhwyrau – gweld, teimlo, clywed, arogli a blasu<br>• Adeiladu cymeriadau neu leoliadau dychmygol neu real<br>• Defnyddio deialog sy'n dangos perthynas cymeriadau â'i gilydd<br>• Cadw at nodweddion *genre* arbennig<br>• Bod yn greadigol feiddgar, fentrus a heriol |

GwE Tuag at Ragoriaeth
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
Ysgol Tryfan
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# YSGRIFENNU ER MWYN DISGRIFIO

Wrth ysgrifennu er mwyn disgrifio byddwn ni'n defnyddio nifer o dechnegau ond y nod bob amser yw DISGRIFIO! Wrth ddisgrifio byddwch yn creu naws neu awyrgylch arbennig gan adeiladu cymeriadau mewn sefyllfaoedd dychmygol neu real. Byddwch yn creu darluniau ym meddwl eich darllenydd gan eu swyno neu eu dychryn ond yn sicr byddwch yn gwneud iddyn nhw ymateb. Beth bynnag yw'r dechneg a ddefnyddir wrth ysgrifennu'n greadigol eich nod drwy eich disgrifiadau yw rhoi'r darllenydd ar daith trên y dychymyg. Gall ysgrifennu creadigol effeithiol fod yn hynod bwerus a pheidiwch ag anghofio y gallwch ddylanwadu'n fawr ar emosiynau eich darllenydd. Nid oes un math o ysgrifennu disgrifiadol a gallwch arbrofi â nifer o dechnegau ond mae'n bwysig ennyn ymateb drwy eich ysgrifennu creadigol.

**BYDDWCH YN FENTRUS** – peidiwch â bod ag ofn torri eich cwys eich hun! Defnyddiwch eirfa gyfoethog a nodweddion arddull trawiadol.

**BYDDWCH YN FEIDDGAR** – arbrofwch a gwthiwch ffiniau unrhyw *genre* – CHI biau'r geiriau!

**BYDDWCH YN HERIOL** – cofiwch eich bod yn anelu at ennyn ymateb gan eich darllenydd ac felly bydd angen DAL EU SYLW yn gyntaf ac YNA . . . eu rhoi drwy'r drin â'ch disgrifiadau byw!

GwE Tuag at Ragoriaeth
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
Ysgol Tryfan
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government